# Ymgynghoriad ar y Canllawiau diwygiedig ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu

Gweithredu Deddf Cyfryngau 2024

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 27 Ionawr 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ............ 3
2. Y cyd-destun rheoleiddio a’r farchnad ............ 5
3. Ein dadansoddiad a’n cynigion ............ 10


## Atodiad


A1. Y fframwaith cyfreithiol ............ 22
A2. Asesiadau effaith ............ 26
A3. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ............ 30
A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ............ 33
A5. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ............ 34

# 1. Trosolwg

1.1 Mae cynyrchiadau annibynnol yn elfen bwysig o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ('PSM'). Maent yn gwneud cyfraniad hanfodol at yr amrywiaeth eang o gynnwys creadigol ac o ansawdd uchel sydd ar gael gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd ar draws y DU. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ac yn dibynnu ar y sector cynhyrchu annibynnol yn y DU i gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd ac sy'n cynrychioli amrywiaeth y DU.

1.2 Yn sail i hyn mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gosod rhwymedigaethau penodol ar y BBC, S4C, a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (trwyddedeion Channel 3, Channel 4 Television Corporation ('C4C') a Channel 5) mewn perthynas â chynyrchiadau annibynnol. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad bod gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus God Ymarfer ('Cod') i lynu ato wrth gomisiynu cynyrchiadau annibynnol. Dylai'r Cod adlewyrchu 'Canllawiau' Ofcom.

1.3 O ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024 ('y Ddeddf Cyfryngau') i ddiweddaru'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rydym ni hefyd yn bwriadu diwygio ein Canllawiau. Mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn adlewyrchu'r hyblygrwydd a rhyddid ychwanegol sydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maent yn cyflawni eu cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, drwy eu galluogi am y tro cyntaf i gyfrif cynyrchiadau annibynnol a gaiff eu comisiynu yn unol â'n Canllawiau ac sydd ar gael ar eu chwaraewyr ar-alw. Mae'r Ddeddf Cyfryngau hefyd yn cyflwyno mesur newydd ar dryloywder i sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu gwybodaeth i gynhyrchwyr annibynnol am sut maent yn defnyddio eu Codau. Nid ydym wedi diwygio ein Canllawiau ers 2007, felly rydym yn cynnig newidiadau pellach i ddiweddaru'r iaith ac i adlewyrchu datblygiadau yn y farchnad ac arferion comisiynu presennol.

1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer fersiwn diwygiedig o'r Canllawiau hyn. Mae gweddill y ddogfen ymgynghori hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn egluro'r cyd-destun rheoleiddio a'r farchnad, gan gynnwys sut mae'r Ddeddf Cyfryngau wedi newid cylch gwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r gofynion sydd arnynt;
- Mae **Adran 3** yn egluro ein cynigion a'n rhesymeg;
- Mae **Atodiad 1** yn nodi manylion y fframwaith cyfreithiol;
- Mae **Atodiad 2** yn nodi ein hasesiad o effaith ein cynigion;
- Mae **Atodiadau 3-5** yn darparu manylion ar sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

1.5 Mae'r Canllawiau drafft ar gael ar ein gwefan.

1.6 Rydym yn gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar ein hymgynghoriad cyn 10 Mawrth 2025. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad a'n Canllawiau terfynol yn ystod haf 2025.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael Cod i'w ddilyn wrth gomisiynu cynyrchiadau annibynnol a rhaid i'r Cod adlewyrchu Canllawiau Ofcom.

Rydym yn cynnig diwygio ein Canllawiau fel rhan o'n gwaith o gyflwyno newidiadau yn sgil y Ddeddf Cyfryngau sy'n galluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddefnyddio eu chwaraewyr ar-alw i fodloni cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol.

Rydym hefyd yn cynnig gwneud darpariaeth yn ein Canllawiau i sicrhau bod cynhyrchwyr annibynnol yn ymwybodol o God y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cyn negodi contract comisiynu gyda'r darlledwr.

Er mwyn gwneud diweddariadau mwy cyffredinol i'n Canllawiau fel eu bod yn adlewyrchu datblygiadau yn y farchnad, rydym wedi gwneud y cynigion canlynol:

- diweddaru amcanion y Canllawiau i ystyried cylchoedd gwaith diwygiedig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Wrth wraidd hynny mae diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU;
- egluro'r gwaharddiad ar ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus rhag cysylltu'r broses o gaffael yr hawliau sylfaenol â negodi hawliau eilaidd, fel y gellir ei hepgor gyda chydsyniad datganedig y cynhyrchydd annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig dileu'r gwaharddiad ar ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys gofyniad yn ei gontract comisiynu am hawliau cyfatebol;
- bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cadw digon o wybodaeth am gomisiynau i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u Cod, yn hytrach nag anfon adroddiadau blynyddol atom am hyn; a
- gwneud mân ddiweddariadau i'r iaith a ddefnyddir yn y Canllawiau.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Rydym wedi amlinellu ein rhesymeg yn y ddogfen lawn.

# 2. Y cyd-destun rheoleiddio a'r farchnad

## Cyflwyniad

2.1 Amcan cyffredinol Ofcom o ran rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw hyrwyddo buddiannau gwylwyr, yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003').[1] Ceir rhagor o fanylion am y dyletswyddau hyn yn Atodiad 1. Mae'n hanfodol bod gennym gasgliad o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus cynaliadwy sy'n cyflawni eu cylch gwaith – sef darparu amrywiaeth o raglenni difyr a llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU. I gyflawni eu cylch gwaith, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu llawer o'u cynnwys gan sector cynhyrchu annibynnol y DU ac yn sail i hynny mae'r rhwymedigaethau a osodir o dan y fframwaith rheoleiddio ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

2.2 Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys cwota ar gyfer pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â faint o gynyrchiadau annibynnol maen nhw'n eu darlledu. Gellir gweld diffiniad o 'gynhyrchiad annibynnol' yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991. Hefyd, rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gael Cod sy'n nodi'r egwyddorion y byddant yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol.[2] Rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddiwygio eu Codau yn ôl yr angen er mwyn ystyried addasiadau i Ganllawiau Ofcom.[3]

2.3 Cyn amlinellu'r newidiadau perthnasol a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau, dyma egluro'n gyntaf sut mae rhaglenni'n cael eu comisiynu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a rôl Cod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'n Canllawiau yn y broses honno.

## Sut mae rhaglenni'n cael eu comisiynu

2.4 Pan fydd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu cynhyrchydd annibynnol, bydd yn negodi trwydded i gaffael hawliau penodol i ddefnyddio'r rhaglen a gynhyrchir. Er enghraifft, gall y rhain gynnwys hawliau ecsgliwsif i ddarlledu rhaglen nifer benodol o weithiau, a/neu i fod ar gael ar-alw am gyfnod penodol. Gelwir yr hawliau a roddir yn y

[1] Mae'r rhain yn cynnwys: ein prif ddyletswydd wrth gyflawni ein swyddogaethau i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol drwy hybu cystadleuaeth; ein dyletswydd i wireddu amcanion adran 3(2), sy'n cynnwys bod ystod eang o wasanaethau teledu ar gael sydd o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau, yn ogystal â'n dyletswydd yn adran 3(4)(a) wrth gyflawni ein dyletswyddau cyffredinol i ystyried y dymuniad i gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar deledu yn y DU.

[2] Ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, gweler adran 285(3) o Ddeddf 2003; ar gyfer S4C, gweler paragraff 10(4), Atodlen 12 i Ddeddf 2003; ar gyfer y BBC, gweler adran 198 o Ddeddf 2003 a pharagraff 8 o Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith. Yn yr ymgynghoriad hwn, dylid dehongli cyfeiriadau at adran 285 o'r Ddeddf fel pe baent yn cynnwys y darpariaethau cyfatebol sy'n berthnasol i S4C a'r BBC.

[3] Gweler adran 285(2) o Ddeddf 2003 ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig; ar gyfer S4C, gweler paragraff 10(3)(c) o Atodlen 12 i Ddeddf 2003; ar gyfer y BBC, gweler paragraff 8(2) o Atodlen 3 i Gytundeb Fframwaith y BBC. Bydd diwygiadau (nad ydynt mewn grym eto) a wneir gan y Ddeddf Cyfryngau i Atodlen 12 o Ddeddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gydymffurfio â Chod ar sail statudol (gweler y diwygiadau i baragraff 1(1)(a) o Atodlen 12).

drwydded i'r darlledwr (y 'prif drwydded') yn hawliau sylfaenol. Gallant hefyd gwmpasu'r cyfnod ecsgliwsif y cytunwyd arno lle gellir 'dal y rhaglen yn ôl', gan atal y cynhyrchydd rhag gwerthu'r hawliau i ryddhau'r cynnwys ar sianeli neu wasanaethau ar-alw eraill yn y DU. Cyfeirir at hawliau y tu allan i'r brif drwydded fel hawliau eilaidd a gall y rhain gynnwys: yr hawl i werthu a dosbarthu cynnwys yn rhyngwladol; yr hawl i werthu fformatau'r cynnwys i'w haddasu i farchnadoedd rhyngwladol; a'r hawl i ddarlledu cynnwys ar sianeli neu ar wasanaethau ar-alw heblaw am y sianel gomisiynu wreiddiol, ar ôl unrhyw gyfnod ecsgliwsif ddod i ben.[4]

2.5 Fel y nodir yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), mae mathau gwahanol o hawliau wedi dod yn bwysicach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddynt sbarduno eu strategaethau digidol, gyda'u chwaraewyr ar-alw yn dod yn rhan hanfodol o'r ffordd maent yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Dros y blynyddoedd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ail-negodi eu telerau comisiynu safonol ac, yn gyffredinol, wedi ceisio mwy o hawliau sylfaenol i ddangos y cynnwys ar eu gwasanaethau ar-alw.

2.6 Bu datblygiadau eraill yn y farchnad hefyd sydd o bosibl wedi effeithio ar yr hawliau sy'n cael eu caffael gan y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheini sy'n cael eu cadw gan y cynhyrchydd annibynnol, gan gynnwys esblygiad yn nhrefniadau cyllido darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu. Er enghraifft, er mwyn lleihau cost comisiynu rhai rhaglenni, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr eraill wedi bod yn gwneud mwy o ddefnydd o gyd-gynyrchiadau. Yn hyn o beth mae darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio gyda darlledwr rhyngwladol neu wasanaeth tanysgrifio fideo ar-alw ('SVoD') i ariannu rhaglen, gyda phob partner yn cymryd hawliau penodol y cytunwyd arnynt. Fel arfer, mae darlledwyr y DU yn caffael y drwydded i'r hawliau sylfaenol yn y DU a gall y partner gaffael hawliau i wledydd eraill neu i fanteisio ar y cynnwys yn ddiweddarach.

2.7 Mae modelau cyllido eraill yn gwneud defnydd ehangach o gyllid diffyg, lle nad yw'r comisiynydd yn talu cost lawn y cynhyrchiad (gan effeithio o bosibl ar yr hawliau mae'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn eu caffael neu ar hawliau'r cynhyrchydd). Mae hyn yn caniatáu i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael gafael ar raglenni cost uwch na fyddent efallai'n dymuno eu hariannu'n llawn, yn enwedig lle mae gan y rhaglenni hynny werth yn y farchnad hawliau eilaidd (yn benodol rhaglenni drama a rhaglenni ffeithiol premiwm). Mae'r rhain yn aml yn gytundebau cymhleth sy'n cynnwys nifer o bartïon ar draws gwahanol diriogaethau.

2.8 Mae tystiolaeth bod rhai newidiadau wedi bod ym mherthnasedd comisiynau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'r sector cynhyrchu annibynnol yn gyffredinol, ochr yn ochr â thwf gwasanaethau SVoD yn ystod y degawd diwethaf. Er enghraifft, rhwng 2013 a 2023, roedd swm comisiynau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng yn ogystal â'u cyfran o gyfanswm y refeniw comisiynu, gan ostwng o 65% (£1.7 biliwn) i 51% (£1.5

[4] Pact, 2024, Cyfrifiad Pact 2024 tudalen 6.

biliwn).[5] Ar y llaw arall, roedd refeniw o SVoD a chomisiynau rhyngwladol wedi cynyddu'n gyflym, o 24% (£0.6 biliwn) yn 2016 i 39% (£1.1 biliwn) yn 2023.[6]

2.9 Yn fwy cyffredinol, mae patrymau gwylio a chystadleuaeth am gynnwys wedi esblygu'n sylweddol ers 2007, pan oedd llawer o bobl yn dibynnu o hyd ar deledu analog gyda gwylio'n ddiweddarach yn cyfrif am lai na 2%.[7] Erbyn hyn, mae cynulleidfaoedd yn gwylio mwy o gynnwys ar-lein ac mae gwylio ar-alw, gan gynnwys rhaglenni yn yr ôl-gatalog, yn llawer amlycach nawr nag yn y gorffennol.[8] Mae hyn yn cynnwys twf ehangach ym mhwysigrwydd gwasanaethau SVoD i gynulleidfaoedd.[9] Yn gysylltiedig â hyn, mae hawliau eilaidd wedi dod yn fwy pwysig - er enghraifft, mae refeniw cynhyrchwyr o hawliau rhyngwladol eilaidd, yn deillio'n rhannol o'r twf ym marchnad SVoD, wedi tyfu'n sylweddol o £33 miliwn i £64 miliwn rhwng 2013 a 2023.[10]

## Y fframwaith rheoleiddio i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu

2.10 **Mae'r fframwaith yn berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n comisiynu cynyrchiadau annibynnol ac mae'n darparu paramedrau eang ar gyfer negodi pecynnau hawliau. Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod lefel priodol o dryloywder ynghylch proses negodi'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a'r hawliau sy'n cael eu caffael.** Rhaid i Ganllawiau Ofcom <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/uncategorised/8554-cop/associated-documents/statement.pdf?v=331523> **am sut y cyflawnir y deilliannau a restrir yn** adran 285 o Ddeddf 2003 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/285> **fod yn gyffredinol eu natur ac ni ddylent nodi telerau penodol i'w cynnwys yn y cytundebau comisiynu sy'n destun y Canllawiau hyn**. Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi rôl oruchwylio Ofcom, drwy amlinellu'r egwyddorion ar gyfer adrodd a monitro cydymffurfiad y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn erbyn ei God. Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 1.

---

[5] Mae'r holl ffigurau ariannol a grybwyllir yn y paragraff hwn wedi'u trosi i brisiau 2023 gan ddefnyddio ONS CPI. Sylwch, mae'r ffigurau sy'n cyfeirio at gynhyrchwyr annibynnol yma'n cynnwys cynhyrchwyr cymwys ac anghymwys (o safbwynt y cwota ar gyfer cynyrchiadau annibynnol).

[6] Dadansoddiad Ofcom gan ddefnyddio Cyfrifiad Pact 2024 (troswyd ffigurau Pact i brisiau 2023 gan ddefnyddio ONS CPI). Sylwer: Mae'r 4 grŵp rhwydwaith o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys y prif sianeli a'r sianeli portffolio ar gyfer y BBC, Channel 4, Channel 5, ITV. I roi darlun cyflawn, roedd comisiynau amlsianel y DU yn ystod y cyfnod hwn wedi gostwng o 20% (£0.5 biliwn) i 10% (£0.3 biliwn). I roi rhagor o gyd-destun, yn 2007, roedd cyfran darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o refeniw comisiynu cynhyrchwyr annibynnol yn 82% (yn ôl yr Adolygiad o weithrediad y sector cynhyrchu teledu (2015) a Marchnad Gyfathrebu 2006). Yn yr un modd, yn 2008, roedd y refeniw o brif gomisiynau rhyngwladol fel cyfran o'r refeniw comisiynu yn 16% (gweler Cyfrifiad Pact 2009 (tudalennau 14 a 21)). Er bod gan y ffigurau hyn werth dangosol, nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau tebyg o flynyddoedd diweddarach oherwydd bod methodoleg ffigurau Cyfrifiad PACT wedi newid.

[7] Gweler Adolygiad o weithrediad y sector cynhyrchu teledu (2015) a Ffigurau Gwylio Dal i Fyny Barb.

[8] Gweler er enghraifft, Ofcom 2024, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), Adran 3 ac Ofcom 2024, Cyfryngau'r Genedl: Y DU 2024, tueddiadau cynulleidfaoedd teledu a fideo.

[9] Er enghraifft, mae mynediad cartrefi at Netflix wedi codi o 16% i 58% rhwng Ch1 2015 a Ch1 2024. Ofcom 2024, Cyfryngau'r Genedl: Y DU 2024, Ffigur 16.

[10] Dadansoddiad Ofcom gan ddefnyddio Cyfrifiad Pact 2024 (troswyd ffigurau Pact i brisiau 2023 gan ddefnyddio ONS CPI).

2.11 Rhaid i God pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus nodi'r egwyddorion y bydd y darlledwr yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol, yn unol â'r Canllawiau. Yn ymarferol, mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus delerau comisiynu safonol a elwir yn Delerau Masnach y mae wedi'u negodi gyda chyrff cynhyrchu Pact a TAC (yn achos S4C).

# Gweithredu gwelliannau'r Ddeddf Cyfryngau

2.12 Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi dau newid a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol fel y nodir yn adran 285 o Ddeddf 2003.

## Ychwanegu cynnwys a gaiff ei gomisiynu ar gyfer chwaraewyr ar-alw er mwyn bodloni cwotâu

2.13 Hyd yma, mae Canllawiau Ofcom wedi bod yn glir fod Cod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddim ond yn berthnasol i gynnwys a gaiff ei gomisiynu i'w ddefnyddio ar eu sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus, felly nid oedd yn cwmpasu rhaglenni a gomisiynwyd yn benodol i'w defnyddio ar wasanaethau eraill, megis chwaraewyr ar-alw.[11] O ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau i adran 285(1) o Ddeddf 2003, bydd Codau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cynnwys comisiynu cynyrchiadau annibynnol i'w darlledu ar chwaraewyr ar-alw dynodedig y darlledwyr,[12] pan fo'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu i'r cynnwys hwnnw gyfrif tuag at ei gwota o gynyrchiadau annibynnol.

2.14 Bellach, mae dwy set o amgylchiadau lle mae Cod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol wrth gomisiynu cynyrchiadau annibynnol:

a) unrhyw gynhyrchiad annibynnol sy'n cael ei ddarlledu ar brif sianel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.[13] Mae hyn yn cynnwys unrhyw gomisiwn am gynhyrchiad annibynnol lle mae hawliau'n cael eu rhoi i'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i'w ddarlledu ar brif sianel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ac ar sianeli portffolio eraill.
b) unrhyw gynhyrchiad annibynnol y bwriedir iddo gael ei ddarlledu ar chwaraewr ar-alw[14] y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a lle mae'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu i hyn gyfrif tuag at ei gwota o gynyrchiadau annibynnol. Felly, os bydd cynhyrchiad annibynnol yn cael ei ddangos ar chwaraewr ar-alw dynodedig y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, dim ond os cafodd y cynhyrchiad dan sylw ei gomisiynu yn unol

[11] Gweler paragraff 9 o'r Canllawiau presennol.
[12] Mae enghreifftiau o chwaraewyr ar-alw yn cynnwys BBC iPlayer, Channel 4 On-demand/Stream, ac ITV X. O dan y diwygiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau, gall darparwr gwasanaeth cyhoeddus wneud cais i Ofcom i ddynodi chwaraewr ar-alw (y cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth fel 'IPS' neu wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd') fel y gall wedyn elwa o'r rheolau newydd mewn perthynas ag amlygrwydd ac argaeledd.
[13] Mae Deddf 2003 yn datgan mai 'gwasanaethau darlledu teledu' yw prif sianeli'r darparwyr gwasanaeth cyhoeddus (gweler adran 232 o Ddeddf 2003). Y sianeli hyn yw holl sianeli teledu'r BBC, S4C, pob un o wasanaethau rhanbarthol Channel 3 sy'n drwyddedeion Channel 3, Channel 4, a Channel 5.
[14] Mae 'gwasanaethau clyweledol cymwys' yn cynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n wasanaeth rhaglen rhyngrwyd dynodedig neu'n ffurfio rhan o hynny. Gweler adran 278B(6) o Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Cyfryngau). Mae hefyd yn cynnwys unrhyw wasanaeth clyweledol perthnasol arall a bennir, neu sy'n dod o fewn disgrifiad a bennir, mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid oes rheoliadau o'r fath wedi'u gwneud.

â’i God y bydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu defnyddio’r rhaglen honno fel un sy’n cyfrif tuag at ei gwota o gynyrchiadau annibynnol.

2.15 Nid yw darpariaethau'r Ddeddf Cyfryngau wedi'i rhoi ar waith eto sy'n galluogi cynyrchiadau annibynnol i gael eu dangos ar chwaraewr ar-alw dynodedig fel eu bod yn cael eu cynnwys yng nghwota cynyrchiadau annibynnol y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus.[15] Serch hynny, gall y cyfnod rhwng comisiynu a darlledu fod yn hir. Mae'n bosibl y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dymuno comisiynu rhaglenni ar gyfer eu chwaraewyr ar-alw nawr yn unol â’u Codau fel y gallant ddefnyddio rhaglenni o’r fath yn nes ymlaen i fodloni eu gofynion cwota.

## Sicrhau tryloywder am y Codau i gynhyrchwyr annibynnol

2.16 Mae’r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno gofyniad newydd am dryloywder y mae’n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei fodloni, sef bod Cod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth, yr ydym ni'n ei hystyried sy’n briodol, am ei ddefnydd o'r Cod i’r cynhyrchwyr annibynnol y mae'n eu comisiynu.[16]

[15] I gael amserlen fanwl o’n proses weithredu, gweler: Ofcom, 2024, Gweithredu’r Ddeddf Cyfryngau.
[16] Adran 285(3)(h) o Ddeddf 2003.

# 3. Ein dadansoddiad a’n cynigion

## Cyflwyniad

3.1 Rydym wedi ymrwymo i roi rheolau'r Ddeddf Cyfryngau ar waith cyn gynted â phosibl mewn ffordd sy’n deg, yn gymesur, ac yn effeithiol. Rydym wedi adolygu ein Canllawiau presennol yng ngoleuni’r darpariaethau deddfwriaethol newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau ac yn unol â’n dyletswyddau cyffredinol, gan ystyried ein hamcan cyffredinol wrth reoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo buddiannau gwylwyr.

3.2 Fe wnaethom siarad â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, Pact a TAC y llynedd i ddeall eu safbwyntiau ar y Canllawiau presennol. Roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'r Canllawiau ond yn dweud hefyd bod angen eu diweddaru i adlewyrchu arferion presennol y sector, yn enwedig o safbwynt rhywfaint o'r ieithwedd a ddefnyddir. Rydym wedi pwyso a mesur pa newidiadau a allai fod yn briodol, gan roi sylw i ddatblygiadau yn y farchnad. Rydym hefyd wedi ystyried amcanion y Canllawiau yn ogystal â’r trefniadau adolygu ac adrodd y dylai’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu rhoi ar waith o dan eu Cod.

3.3 Mae ein Canllawiau drafft yn nodi manylion y fframwaith cyfreithiol, amcanion y Canllawiau, a sut dylai Codau'r darparwyr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau’r deilliannau a nodir yn Neddf 2003,[17] sef:

a) bod amserlen resymol yn cael ei rhoi ar gyfer negodi cynhyrchiad annibynnol sy'n cael ei gomisiynu ac ar gyfer cytuno ar gytundeb rhwymol;
b) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o eglurder, pan gomisiynir cynhyrchiad annibynnol, ynghylch y gwahanol gategorïau o hawliau i ddarlledu, neu i ddefnyddio neu fanteisio ar y cynhyrchiad a gomisiynir, pan fyddant yn cael eu gwaredu;
c) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o dryloywder ynghylch y symiau sydd i’w talu mewn perthynas â phob categori o hawliau;
d) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod trefniadau boddhaol mewn grym ynghylch hyd a natur ecsgliwsif yr hawliau hynny;
e) bod gweithdrefnau’n bodoli ar gyfer adolygu’r trefniadau a fabwysiadwyd yn unol â’r cod ac ar gyfer dangos cydymffurfiaeth ag ef; mae’r gweithdrefnau hynny’n cynnwys gofynion ar gyfer monitro defnydd y cod ac ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Ofcom;
g) gwneir darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy’n codi mewn perthynas â darpariaethau’r cod (drwy gymrodeddu annibynnol neu fel arall) mewn ffordd sy’n ymddangos i Ofcom yn briodol; a
h) bod unrhyw wybodaeth o'r fath am weithrediad y cod, fel y bo'n briodol ym marn Ofcom, yn cael ei rhoi i’r rheini sy’n creu cynyrchiadau annibynnol a gaiff eu comisiynu yn unol â’r cod.[18]

3.4 Yn yr adran hon rydym yn amlinellu manylion ein cynigion, gan drafod yn gyntaf ein diwygiadau i amcanion y Canllawiau ac wedyn ein diwygiadau arfaethedig i’r Canllawiau eu hunain.

[17] Gweler adran 285(3) o’r Ddeddf a pharagraff A1.15 o Atodiad 1.
[18] Adran 285(3)(h) o Ddeddf 2003.

## Diwygio amcanion y Canllawiau

3.5 Gan fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cynhyrchwyr annibynnol, a chomisiynau mor amrywiol eu natur, ni fyddai'n briodol i'r Canllawiau fod yn rhy ragnodol ynghylch y ffordd y mae'n rhaid i Godau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fodloni'r gofynion statudol. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod y Codau'n ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer amgylchiadau gwahanol ac esblygiad y marchnadoedd perthnasol. Felly, credwn ei bod yn ddefnyddiol i gadw cyfres o amcanion mewn cof, a hynny i egluro amcanion Ofcom wrth lunio ac adolygu'r Canllawiau ac i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hystyried wrth adolygu eu Codau, eu Telerau Masnach, ac wrth negodi a chomisiynu rhaglenni.

3.6 Rydym wedi adolygu'r rhestr o amcanion yn y Canllawiau presennol gan gynnig gwneud diwygiadau sy'n adlewyrchu'r newidiadau i gylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o dan y Ddeddf Cyfryngau ac sy'n ystyried datblygiadau yn y farchnad ers i'r Canllawiau gael eu diwygio diwethaf.

3.7 Yn sgil newidiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau, mae pwysigrwydd diwallu anghenion a buddiannau gynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU yn amlwg yn ganolog i gylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus erbyn hyn. Mae hyn yn berthnasol i natur y cynnwys maen nhw'n ei ddarparu a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio i wneud hynny. Yng ngoleuni hyn, ac yn unol â'n hamcan cyffredinol wrth reoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo buddiannau gwylwyr, dyma yw ein cynnig fel amcan lefel uchel ar gyfer Ofcom wrth lunio ac adolygu'r Canllawiau ar gyfer y Canllawiau drafft:

*"Cefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol a'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU; a bodloni eu rhwymedigaethau cwota mewn perthynas â chynyrchiadau annibynnol."*[19]

3.8 Mae hyn yn cynrychioli newid ffocws o'r amcanion lefel uchel yn y Canllawiau presennol, sy'n canolbwyntio ar (i) cefnogi nifer a gwerth comisiynu gwreiddiol yn y DU a (ii) dileu rhwystrau rhag datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer dosbarthu cynnwys.[20] Credwn fod y cyntaf o'r rhain yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan lefel uchel sy'n cael ei gynnig – mae cefnogi sector cynhyrchu annibynnol bywiog ac amrywiol yn hanfodol er mwyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus allu cyflawni eu cylchoedd gwaith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn credu bod yr ail bellach wedi dyddio, o ystyried y ffordd mae'r farchnad wedi esblygu a'r symudiad cynyddol gan gynulleidfaoedd i lwyfannau dosbarthu cynnwys eraill. Drwy eu cylchoedd gwaith diwygiedig, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nawr wedi cael y dasg o ddarparu cynnwys lle bynnag a phryd bynnag y mae cynulleidfaoedd yn ei ddymuno ac felly mae'n bwysig eu bod yn gallu sicrhau'r hawliau cynnwys sydd eu hangen arnynt i wneud hynny.

3.9 Rydym hefyd yn cynnig diwygio'r amcanion y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio eu cyflawni drwy eu Codau a'u harferion comisiynu, fel a ganlyn:

"*Wrth ddiwygio eu Codau a'u defnyddio mewn trafodaethau negodi cynyrchiadau annibynnol sy'n cael eu comisiynu, dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gadw mewn cof bod angen:*

[19] Gweler paragraff 2.10 o'r Canllawiau drafft.
[20] Gweler paragraff 3 o'r Canllawiau presennol.

1. *fframwaith hyblyg sy’n niwtral o ran llwyfan a thechnoleg;*
2. *eglurder ynghylch y broses gomisiynu, sut caiff hawliau eu dyrannu rhwng darlledwyr a chynhyrchwyr, a'r defnydd o lwyfannau dosbarthu gwahanol;*
3. *peidio ag ystumio’r penderfyniad comisiynu fel ei fod rhwng cynhyrchwyr mewnol ac allanol;*
4. *cynnal yr elfen dosbarthiad ecsgliwsif sy’n ofynnol gan ddarlledwyr yn y brif drwydded, ond hefyd cadw’r cyfle i gynhyrchwyr allu manteisio’r eildro;*
5. *hybu'r defnydd o amrywiaeth o wasanaethau clyweledol er mwyn dosbarthu’r cynnwys, gyda’r bwriad o ddiwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd ledled y DU ag sy’n ymarferol; a*
6. *hyrwyddo buddiannau gwylwyr, drwy gefnogi buddsoddiad ac arloesedd yn y cynnwys sydd ar gael i wylwyr, a'i ddefnyddio a'i ddosbarthu'n effeithlon.*”[21]

3.10 O ran y newidiadau, rydym yn cynnig y canlynol:

- Rydym wedi symleiddio iaith yr amcan arfaethedig cyntaf ond nid ydym wedi newid ei ystyr.
- Mae’r ail amcan arfaethedig yn cynnwys yr angen am eglurder ynghylch y broses gomisiynu gyfan ac ynghylch dyrannu hawliau sylfaenol ac eilaidd ymysg darlledwyr a chynhyrchwyr.
- Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i’r trydydd amcan arfaethedig.
- Mae’r pedwerydd amcan arfaethedig yn canolbwyntio ar gynnal dosbarthiad yn y brif drwydded ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chyfle i gynhyrchwyr allu manteisio’r eildro. Nid ydym yn cynnig cadw’r geiriau ‘*ac ehangu lle bo modd*’ mewn perthynas â chyfle i gynhyrchwyr allu manteisio’r eildro. Mae hyn yn adlewyrchu ein barn bod cyd-destun y farchnad wedi symud ymlaen ers i’r amcan hwn gael ei osod yn y Canllawiau presennol yn 2007.
- Rydym yn cynnig diwygio’r pumed amcan i ddiweddaru’r iaith ac i greu cyswllt rhwng manteisio ar hawliau a diwallu anghenion a buddiannau gwahanol gynulleidfaoedd ledled y DU. Mae hyn yn cyd-fynd â’r diwygiad rydym yn ei gynnig i amcan lefel uchel y Canllawiau drafft sy’n cael ei drafod ym mharagraff 3.7 uchod.
- Rydym hefyd yn cynnig mireinio iaith y chweched amcan i gyd-fynd â’n hamcan lefel uchel arfaethedig. Gan ystyried y ffordd mae’r marchnadoedd dosbarthu cynnwys yn newid, gan gynnwys esblygiad modelau cyllido newydd, rydym yn cynnig ail-fframio’r amcan fel “*cefnogi buddsoddiad ac arloesedd yn y cynnwys sydd ar gael i wylwyr*”.

3.11 Yn fwy cyffredinol, rydym yn cynnig diweddaru’r iaith a ddefnyddir yn yr amcanion - er enghraifft, drwy ddileu cyfeiriadau at lwyfannau dosbarthu ‘*newydd*’ a chynnwys cyfeiriad at wasanaethau clyweledol.

3.12 Rydym yn cydnabod bod yr amcanion diwygiedig yn canolbwyntio mwy ar hwyluso’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith diwygiedig. Serch hynny, rydym yn disgwyl y bydd ein newidiadau arfaethedig o fudd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol. Mae cyflawni cylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi’r sector cynhyrchu annibynnol yn y DU a’r marchnadoedd dosbarthu

[21] Gweler paragraff 2.11 o'r Canllawiau drafft.

cynnwys yn ehangach. Yn bwysig, credwn y dylai'r Canllawiau drafft gefnogi cysylltiadau masnachol effeithiol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol, er budd cyffredinol y naill a'r llall wrth ofalu am fuddiannau cynulleidfaoedd.

### Newidiadau eraill i adlewyrchu'r amcanion diwygiedig

3.13 Yn unol â'n diwygiadau arfaethedig i amcanion y Canllawiau, rydym yn cynnig gwneud rhywfaint o newidiadau ychwanegol i bwysleisio y dylai contractau comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Nid ydym yn disgwyl i unrhyw effeithiau arwyddocaol ddeillio o'r newidiadau hyn.

3.14 Yn anad dim, rydym yn cynnig y diwygiadau canlynol, sydd wedi'u hamlygu mewn print trwm, i'r Canllawiau:

"*Un egwyddor allweddol sy'n sail i'n pwrpas ar gyfer y Codau yw y dylai cynhyrchwyr allu cadw'r hawliau i'w rhaglenni oni bai fod y rhain yn cael eu gwerthu'n benodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a/neu i bartïon eraill.* ***Rydym hefyd yn disgwyl y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu caffael yr hawliau angenrheidiol i gyflawni eu cylch gwaith ac i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd****."*[22]

"*Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hawl ddilys i geisio diogelu gwerth eu brand* ***wrth gyflawni eu cylch gwaith*** *ac mae ganddynt hawl i rywfaint o elfen ecsgliwsif o ran yr hawliau maent yn eu caffael* ***i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd****. Fodd bynnag, ni ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio hyn i lesteirio* ***cystadleuaeth nac*** *i rwystro cynhyrchwyr a thrydydd partïon rhag datblygu marchnadoedd newydd*."[23]

*"Gall y Cod gadw hawl y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i ailedrych ar gwmpas y pecyn hawliau sylfaenol wrth i lwyfannau dosbarthu* ***~~newydd ymddangos~~ ac wrth i alw neu anghenion cynulleidfaoedd newid****"* [24]

# Diwygiadau i'r Canllawiau ar sicrhau'r canlyniadau statudol

3.15 Rydym nawr am egluro'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i'r Canllawiau ynghylch sut dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau'r canlyniadau a restrir yn adran 285(3) o'r Ddeddf. Rydym yn ymdrin â phedwar prif bwnc yn eu tro:

a) Gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol yn sgil y Ddeddf Cyfryngau;
b) Diweddariadau mewn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad;
c) Trefniadau ar gyfer adolygu, adrodd a datrys anghydfodau; a
d) Mân ddiweddariadau eraill.

## Gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol yn sgil y Ddeddf Cyfryngau

3.16 Mae ein hadolygiad o'r Canllawiau yn ymwneud yn bennaf â sicrhau ei fod yn gyson â'r newidiadau deddfwriaethol yn sgil y Ddeddf Cyfryngau - mae'r rhain yn cael eu hegluro yn

---

[22] Gweler paragraff 2.16 o'r Canllawiau drafft.
[23] Gweler paragraff 2.36 o'r Canllawiau drafft.
[24] Gweler paragraff 2.19 o'r Canllawiau drafft.

Adran 2. Rydym yn cynnig gwneud dau brif ddiwygiad i'r Canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol hyn.

3.17 Yn gyntaf, rydym yn cynnig newidiadau i egluro sut bydd y Canllawiau (a Chodau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus) yn berthnasol i gynyrchiadau annibynnol a fwriedir ar gyfer (i) y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a (ii) chwaraewyr ar-alw dynodedig y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (pan fwriedir i'r cynnwys hwnnw gyfrif tuag at fodloni cwotâu rhaglenni'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol ar gyfer cynyrchiadau annibynnol).[25]

3.18 Yn ail, rydym yn cynnig ychwanegu'r testun canlynol at yr wybodaeth y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei darparu i gynhyrchwyr annibynnol ynghylch defnyddio eu Codau, i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau[26]:

*"Dylai'r darparwr gwasanaeth cyhoeddus dynnu sylw'r cynhyrchydd at ei God cyn dechrau trafodaethau negodi….*

*Dylai Cod y darparwr gwasanaeth cyhoeddus a'r holl ddogfennau perthnasol fod ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch ar wefan y darparwr gwasanaeth cyhoeddus (gan ystyried anableddau ac anghenion hygyrchedd eraill). Caiff trwyddedai Channel 3 yng Nghymru, C4C, Channel 5 ac S4C gyhoeddi eu Codau yn Gymraeg ac yn Saesneg."* [27]

3.19 Rydym yn credu y bydd hyn yn gwella tryloywder Cod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r cynhyrchwyr annibynnol sy'n trafod neu'n ystyried comisiwn gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Rydym o'r farn bod unrhyw faich gweinyddol sy'n deillio o'r newid hwn yn debygol o fod yn fach iawn.

3.20 Ar ben hynny, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i 285(6)(c) o Ddeddf 2003, rydym yn bwriadu rhoi 'S4C' yn lle 'Awdurdod S4C' drwy gydol y Canllawiau drafft.

## Diweddariadau mewn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad

3.21 Dylai Cod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus roi digon o eglurder am y gwahanol gategorïau o hawliau sy'n cael eu caffael gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus pan fydd yn comisiynu cynhyrchiad annibynnol.[28] Yn hyn o beth, mae ein Canllawiau'n nodi, ymysg pethau eraill:

a) "*dylai'r Codau gadarnhau na fydd trafodaethau negodi am gaffael hawliau sylfaenol a manteisio ar hawliau o'r fath yn y brif drwydded yn gysylltiedig ag unrhyw drafodaethau negodi am hawliau ar gyfer manteisio dilynol*" (hawliau eilaidd)[29]; [30] a

---

[25] Gweler paragraffau 2.5, 2.17-2.18, 2.20-2.22 o'r Canllawiau drafft am enghreifftiau o hyn.
[26] Gweler adran 285(3)(h) o Ddeddf 2003.
[27] Gweler paragraffau 2.42 a 2.43 o'r Canllawiau drafft. Pan fydd cyfeiriad yn y Cod at ddogfennau cysylltiedig, rydym yn cynnig cynnwys dolen we gyfatebol ar eu cyfer i'w gwneud yn hygyrch – gweler paragraffau 2.13-2.14 o'r Canllawiau drafft.
[28] Adran 285(3)(b) o Ddeddf 2003.
[29] Mae'r gwerth sy'n gysylltiedig â hawliau eilaidd wedi cynyddu a gelwir hawliau hefyd yn fwndelu hawliau sylfaenol ac eilaidd. Mae hyn yn cyfeirio at gytundeb lle mae hawliau sylfaenol ac eilaidd yn cael eu grwpio gyda'i gilydd a'u negodi neu eu gwerthu fel un pecyn, yn hytrach nag yn unigol.
[30] Paragraff 26 o'r Canllawiau presennol.

b) "*ni ddylid cynnwys unrhyw delerau mewn contractau sy'n eu gwneud yn amodol (mewn gwirionedd neu i bob pwrpas) ar gynhyrchwyr yn derbyn cynnig wedi'i fwndelu neu ar ddefnyddio braich ddosbarthu'r darlledwr ei hun*".[31]

3.22 Rydym yn cynnig diwygiadau i'r agweddau hyn ar y Canllawiau. Mae'r darpariaethau'n cynnig cefnogi gallu cynhyrchwyr annibynnol i gadw a manteisio ar hawliau eilaidd gyda thrydydd partïon neu'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod nifer o resymau pam ei bod bellach yn briodol llacio'r cyfyngiadau hyn ar drafodaethau.

3.23 Yn gyntaf, rydym wedi ystyried y datblygiadau yn y farchnad a amlinellir yn Adran 2, sef: y gostyngiad yng nghyfran y comisiynau annibynnol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a'r cynnydd sylweddol mewn comisiynau annibynnol gan wasanaethau SVoD a chomisiynwyr cynnwys rhyngwladol eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid yn arferion gwylio cynulleidfaoedd wrth iddynt symud fwyfwy ar-lein a chael gafael ar gynnwys ar amrywiaeth eang o lwyfannau, yn ychwanegol at wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

3.24 Yn ail, mewn ymateb i'r newidiadau hyn, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn galluogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu eu cynnwys ar draws amrywiaeth o wahanol wasanaethau yn ogystal â'u sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn seiliedig ar eu cylch gwaith diwygiedig, fel y nodir yn adran 264(4) o Ddeddf 2003: yn ogystal â darparu cynnwys sy'n diwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl, mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud hynny mewn ffordd sy'n ystyried sut a phryd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys o'r fath. Felly, rydym yn credu ei bod yn bwysig i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod mewn sefyllfa i negodi'r broses o gaffael hawliau i gyflawni eu rhwymedigaethau newydd. Rydym yn deall, yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid, y gallai'r cyfyngiadau a nodir uchod yn y Canllawiau ei gwneud hi'n anodd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gomisiynu cynnwys ar delerau sy'n cyflawni ar gyfer gwylwyr.

3.25 Yn drydydd, fel y disgrifir yn Adran 2, mae'r mecanweithiau cyllido ar gyfer comisiynau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau eraill wedi esblygu ers i'r Canllawiau gael eu diweddaru diwethaf (er enghraifft, gyda dyfodiad cyd-gynyrchiadau a chyllid diffyg), sy'n amlygu manteision mwy o hyblygrwydd o ran sut mae hawliau sylfaenol ac eilaidd yn cael eu negodi.

3.26 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig y diwygiadau canlynol, sydd wedi'u hamlygu mewn print trwm, i'r Canllawiau:

*(1) "Dylai'r Cod gadarnhau, **oni bai fod y cynhyrchydd annibynnol yn cydsynio'n benodol**, na fydd trafodaethau negodi am gaffael hawliau sylfaenol a manteisio ar hawliau o'r fath yn y brif drwydded yn gysylltiedig ag unrhyw drafodaethau negodi am hawliau ar gyfer manteisio dilynol."*[32]

*(2) "Ni ddylai'r Cod bennu trefniant cyllido penodol na chaniatáu ar gyfer bwndelu hawliau'n awtomatig rhwng manteisio ar yr hawliau sylfaenol a manteision eilaidd oni bai fod y ddau barti'n cytuno ar hyn. Ni ddylid cynnwys unrhyw delerau mewn contractau sy'n eu gwneud yn amodol (mewn gwirionedd neu i bob pwrpas) ar* ~~**gynhyrchwyr yn derbyn cynnig wedi'i**~~

[31] Paragraff 27 o'r Canllawiau presennol.
[32] Gweler paragraff 2.24 o'r Canllawiau drafft.

~~**fwndelu neu**~~ ar ddefnyddio braich ddosbarthu'r ~~**darlledwr**~~ ***darlledwr gwasanaeth cyhoeddus** ei hun*"[33]

3.27 Mae'r diwygiadau arfaethedig yn dileu'r gwaharddiad llwyr ar gynigion cysylltiedig neu amodol ar gyfer hawliau sylfaenol ac eilaidd, felly maen nhw'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus negodi set ehangach o hawliau. Maent hefyd yn diogelu gallu cynhyrchwyr annibynnol i wrthod cynigion lle mae caffael hawliau sylfaenol yn amodol ar gaffael hawliau eilaidd.

3.28 Byddai'r diwygiad hwn yn golygu y bydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y potensial i gomisiynu rhaglenni ar draws set ehangach o wasanaethau ar y cyd â phartneriaid cyllido. Rydym o'r farn y byddai'n gwella eu gallu i gystadlu â gwasanaethau ffrydio byd-eang nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar gwmpas y pecynnau hawliau y gallant eu negodi, a bydd hynny wedyn yn gwella'r pecyn sydd ar gael i gynulleidfaoedd. Gallai cynhyrchwyr elwa ar fuddsoddiadau uwch ymlaen llaw gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n golygu bod modd comisiynu cynnwys na fyddai'n bosibl cyn hynny efallai.

3.29 Rydym yn cydnabod y gallai rhai cynhyrchwyr bryderu y byddai'r newid hwn i'n Canllawiau yn gwanhau eu gallu i gadw a manteisio ar hawliau eilaidd. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr, ill dau, yn debygol gael budd o ddiwygiad o'r fath. Er enghraifft, gallent elwa o'r hyblygrwydd ychwanegol i negodi cynigion wedi'u bwndelu pan fydd y ddau barti o'r farn bod hynny er eu lles. Efallai hefyd y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus neu gynhyrchwyr yn elwa ar gostau is sy'n gysylltiedig â thrafodaethau llai cymhleth neu lai o drafodaethau. Felly, rydym yn credu y bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig, ar y cyfan, yn fuddiol ac yn gyson â'n nod cyffredinol o hyrwyddo buddiannau gwylwyr.

## Rydym yn cynnig dileu'r ddarpariaeth 'hawliau cyfatebol'

3.30 Rydym yn cynnig dileu'r testun sydd wedi'i amlygu mewn print trwm o'r Canllawiau:

*"Ni ddylai'r Cod atal darlledwr gwasanaeth cyhoeddus rhag caffael pecynnau hawliau gwahanol neu ychwanegol os ydynt yn dymuno gwneud hynny a phe byddai'r cynhyrchydd annibynnol yn dymuno eu darparu. Dylai darlledwr gwasanaeth cyhoeddus bob amser allu ceisio sicrhau mwy o becynnau hawliau yn amodol ar drafodaethau negodi masnachol.* ~~***Fodd bynnag, ni ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio sicrhau darpariaethau "hawliau cyfatebol" sy'n cael yr effaith honno. Credwn y gallai darpariaethau o'r fath lesteirio cystadleuaeth.***~~*"*[34]

3.31 Pan ddaeth y Canllawiau presennol i rym, roedd Ofcom o'r farn y gallai darpariaeth am hawliau cyfatebol (sy'n rhoi'r gallu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud cynigion sy'n cyfateb i gynigion trydydd parti ar gyfer hawliau penodol i gynnwys maen nhw wedi'i gomisiynu) lesteirio cystadleuaeth. Daethom i'r casgliad "*y gallai cymalau o'r fath lesteirio mynediad darparwyr gwasanaeth trydydd parti at hawliau cynnwys yn ogystal â chael effaith lesteiriol ar gystadleuaeth am hawliau o'r fath*", fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad yn 2007.[35]

[33] Gweler paragraff 2.25 o'r Canllawiau drafft.

[34] Gweler paragraff 28 o'r Canllawiau presennol a pharagraff 2.26 o'r Canllawiau drafft.

[35] Gweler Ymgynghoriad Ofcom ar y canllawiau ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) yng nghyswllt llunio Codau Ymarfer ar gyfer gwaith comisiynu gan gyfarwyddwyr annibynnol (2007), paragraff 4.22.

3.32 Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn nhroednodyn **Error! Bookmark not defined.** a pharagraff 2.9 uchod, mae patrymau gwylio a chystadleuaeth am gynnwys wedi esblygu'n sylweddol ers 2007. Nawr, pan fydd darparwyr SVoD ac amlsianel, gyda'i gilydd, yn gallu gwario dwywaith cymaint â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar ddramâu gwreiddiol o'r DU ac yn gweithio gyda chyllidebau byd-eang gwerth biliynau,[36] rydym o'r farn nad oes achos digonol mwyach dros gredu, fel egwyddor gyffredinol, y gallai cynnwys darpariaeth am hawliau cyfatebol mewn comisiynau darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

3.33 Gall hawliau cyfatebol hefyd fod â'r fantais o sicrhau (neu ei gwneud hi'n haws sicrhau) bod cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n annibynnol yn cael presenoldeb cyson ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sydd felly'n gwasanaethu buddiannau gwylwyr yn well lle mae'r cynnwys hwnnw wedi dod yn gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Felly, rydym yn cynnig dileu'r gwaharddiad ar ddarpariaethau 'hawliau cyfatebol' mewn contractau comisiynu darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar y sail nad yw darpariaethau o'r fath yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth ac y gallent arwain at fanteision eraill mewn rhai cyd-destunau.

## Trefniadau ar gyfer adolygu, adrodd a datrys anghydfodau

3.34 Yn yr isadran hon, rydym yn nodi ein cynigion mewn perthynas â'r gofynion bod yn rhaid i God: nodi gweithdrefnau ar gyfer adolygu trefniadau a wneir o dan y Cod hwnnw a dangos cydymffurfiad ag ef; cynnwys darpariaethau ynghylch adrodd i Ofcom; a gwneud darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â darpariaethau'r Cod.

### Adolygu trefniadau o dan y Cod a rhoi gwybodaeth i Ofcom

3.35 Ar y cyfan, dim ond mân ddiwygiadau drafftio rydym wedi'u gwneud i'r adran yn y Canllawiau sy'n ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer adolygu'r trefniadau a wneir o dan y Cod.[37] Rydym wedi egluro os bydd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn dymuno addasu ei God, neu ddogfen gysylltiedig lle byddai hyn yn effeithio ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ei darparu o dan y Canllawiau hyn, rhaid iddynt ofyn am sêl bendith Ofcom. Rydym hefyd yn cynnig egluro y gallai fod yn briodol i Ofcom ddiwygio'r Canllawiau o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd, mae'r Canllawiau'n nodi y gallwn ddiwygio'r Canllawiau os bydd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn codi mater penodol a gwneud cais i addasu ei God.[38] Rydym yn cynnig egluro yn ein Canllawiau ei bod yn bosibl y byddwn hefyd yn ystyried ei bod yn briodol i ni ddiwygio'r Canllawiau o bryd i'w gilydd o dan amgylchiadau eraill.

3.36 Mewn perthynas â gofynion ar gyfer monitro a chydymffurfio, rydym wedi ystyried beth mae'r Canllawiau'n ei ddweud am yr wybodaeth y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei rhoi i Ofcom. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adrodd i Ofcom bob blwyddyn ynghylch ystod o wybodaeth sy'n cynnwys yr wyth maes allweddol y mae'n rhaid i'r Codau roi sylw iddynt.[39]

[36] Gweler Ofcom, 2024, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), Ffigur 20.
[37] Mae'r rhain wedi'u nodi ym mharagraffau 41 a 42 o'r Canllawiau presennol ac maen nhw wedi'u diwygio ym mharagraffau 2.37 a 2.38 o'r Canllawiau drafft.
[38] Gweler paragraff 42 o'r Canllawiau presennol.
[39] Gweler paragraffau 43-46 o'r Canllawiau presennol.

3.37 Rydym yn cynnig symud i ffwrdd o ofyniad i adrodd yn flynyddol[40] ac yn hytrach mynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn:

"*casglu, cofnodi a chadw digon o wybodaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Canllawiau*. *Dylid cadw'r wybodaeth hon am o leiaf dair blynedd*. *Gallai enghreifftiau o'r math o wybodaeth gynnwys y prisiau a dalwyd am gomisiynau a'r ystodau tariffau dangosol perthnasol, a hyd yr hawliau*."[41]

3.38 Er ein bod yn cynnig rhoi disgresiwn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch yr wybodaeth maen nhw'n ei chadw, rydym yn rhoi enghreifftiau o'r math o wybodaeth mae hyn yn debygol o'i chynnwys. Ni fwriedir i'r enghreifftiau hyn fod yn gynhwysfawr, ac mae'n debygol o fod yn briodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gadw gwybodaeth arall er mwyn bod mewn sefyllfa i ddangos eu bod yn cydymffurfio.

3.39 Rydym yn cynnig y dylai'r Codau ddarparu bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw am o leiaf tair blynedd i ganiatáu amser i dueddiadau ddod i'r amlwg. Yn wreiddiol, roeddem o'r farn y byddai cyfnod o bum mlynedd yn briodol, i gyd-fynd ag amserlen ein hadolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond roeddem yn ymwybodol o'r baich rheoleiddio y gallai darpariaeth estynedig ei roi ar randdeiliaid. Byddem yn croesawu barn ynghylch a yw hon yn amserlen briodol ar gyfer cadw'r wybodaeth hon.

3.40 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd y newidiadau'n dileu'r baich o orfod adrodd yn flynyddol ar y Cod gyda mesurau llai beichus i gadw gwybodaeth er mwyn i ni allu parhau i oruchwylio mewn ffordd fwy pendant. Nid ydym yn disgwyl i hyn gael effaith ar gynhyrchwyr na chynulleidfaoedd.

3.41 Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw broblemau er mwyn i'r rhain allu cyfrannu at ein hadolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn dal i gael adroddiadau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymdrin â'n swyddogaethau eraill, gan gynnwys gwybodaeth rydym yn ei chasglu i lywio ein hadroddiadau statudol blynyddol ynglŷn â'r farchnad deledu, yn ogystal â data gan ddarlledwyr sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r cwotâu.

## Trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau

3.42 Mae'n ofynnol bod Cod darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy'n ymwneud â defnyddio'r Cod.[42] Rydym yn cynnig gwneud mân newidiadau drafftio yn hytrach na newidiadau sylweddol i'r adran hon yn y Canllawiau.[43]

3.43 Fodd bynnag, sylwn fod un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cwestiynu ymarferoldeb yr awgrym, sy'n parhau i fod yn y Canllawiau drafft, sef "*gellid gwahodd cyfarwyddwr anweithredol darparwr gwasanaeth cyhoeddus i fod yn ganolwr terfynol mewn anghydfod*".[44] Byddem yn croesawu sylwadau ar y pwynt hwn.

---

[40] Gweler paragraff 46 o'r Canllawiau presennol.
[41] Gweler paragraff 2.39 o'r Canllawiau drafft.
[42] Adran 285(3)(g) o Ddeddf 2003.
[43] Gweler paragraff 47 a 48 o'r Canllawiau presennol a'r testun diwygiedig ym mharagraffau 2.40–2.41 o'r Canllawiau drafft. Rydym wedi cynnig mân newidiadau i'r testun o un darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i'r llall, ac o un Cod Ymarfer i'r llall.
[44] Paragraff 2.41 o'r Canllawiau drafft.

## Mân ddiweddariadau eraill

3.44 Rydym yn cynnig gwneud mân newidiadau eraill, er enghraifft i ddiweddaru'r derminoleg i adlewyrchu esblygiad technoleg ac arferion y diwydiant, ac i symleiddio'r drafftio. Nid ydym o'r farn bod y newidiadau arfaethedig a drafodir isod yn cael effaith sylweddol.

### Diweddaru'r derminoleg a symleiddio'r iaith

3.45 Rydym yn cynnig dileu neu ddiwygio hen derminoleg, er enghraifft, cyfeiriadau at lwyfannau dosbarthu 'newydd' sydd bellach wedi'u deall a'i derbyn yn gyffredinol[45], yn ogystal â chyfeiriadau hen ffasiwn at 'lwyfannau dosbarthu amgen',[46] 'cyfryngau newydd' a 'hawliau cyfryngau newydd'.[47]

3.46 Rydym yn cynnig dileu paragraff 30 o'r Canllawiau presennol[48] er mwyn symleiddio'r broses ddrafftio. Nid ydym yn credu bod hyn yn newid sylwedd ein Canllawiau.

3.47 Rydym hefyd yn cynnig dileu rhan gyntaf paragraff 40 y Canllawiau presennol[49] sy'n dweud:

"*Mae Ofcom yn cydnabod bod darlledwyr yn poeni y gallai'r defnydd o hawliau cyfryngau newydd gan gynhyrchwyr effeithio ar eu gallu i gynnal a datblygu eu brand a'u harlwy ar y sianel. Mae Ofcom hefyd yn cydnabod bod darlledwyr yn poeni y gallai'r hawliau cyfryngau newydd mewn cynyrchiadau annibynnol a gomisiynwyd ganddynt yn wreiddiol gael eu defnyddio y tu hwnt i reolaeth y darlledwyr ac y gallai hynny gael goblygiadau pwysig ar eu modelau busnes sylfaenol.*"

3.48 Fel y nodwyd, mae'r term 'hawliau cyfryngau newydd' bellach wedi dyddio. Ar ben hynny, ac i'r graddau bod gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bryderon tebyg o hyd, nid yw paragraff 40 o'r Canllawiau presennol yn nodi unrhyw fesur y gallai eu Codau ei ymgorffori yn hynny o beth. Rydym felly o'r farn bod lle i symleiddio'r drafftio drwy ddileu'r testun uchod, heb newid effaith penodol y Canllawiau.

3.49 Rydym yn cynnwys gwneud mân newidiadau pellach[50] i baragraffau 2.13–2.15 a 2.31 y Canllawiau drafft, gyda'r bwriad o symleiddio'r drafftio. Nid ydym yn credu bod y rhain yn newid neu'n effeithio'n sylweddol ar y darpariaethau yn y Canllawiau. Rydym hefyd wedi esbonio ystyr 'rhaglenni cysylltiedig'.[51]

3.50 Mae'r Canllawiau presennol yn cynnig rhai enghreifftiau sy'n dangos sut gallai mesur fod yn berthnasol neu sut y gellid ei weithredu, fel y nodir mewn ffont trwm isod:

a) *"Byddai asesiad o ba mor ddigonol yw'r gwahaniad yn dibynnu ar y darlledwr dan sylw* ***e.e. gyda thrwyddedeion llai, efallai na fyddai'n ymarferol cael golygyddion comisiynu mewnol/allanol ar wahân ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.***[52]

---

[45] Er enghraifft, ym mharagraff 21 o'r Canllawiau presennol.

[46] Er enghraifft, ym mharagraffau 3 a 4 o'r Canllawiau presennol.

[47] Er enghraifft, ym mharagraffau 1, 3 a 40 o'r Canllawiau presennol.

[48] Mae paragraff 30 y Canllawiau presennol yn nodi, "*Mae Ofcom yn disgwyl y bydd mwy o ddealltwriaeth yn datblygu dros amser am werth gwahanol gategorïau o hawliau wrth i fwy o becynnau o hawliau gael eu masnachu. Fodd bynnag, mae Ofcom yn cydnabod y gallai fod cryn ansicrwydd ynghylch gwerth gwahanol gategorïau o hawliau ac felly nid yw'n credu ei bod yn briodol i fod yn rhy ragnodol ynghylch y ffordd y dylid prisio gwahanol gategorïau o hawliau."*

[49] Gweler paragraff 2.36 o'r Canllawiau drafft.

[50] Gweler paragraffau 15 – 17 a 35 o'r Canllawiau presennol.

[51] Gweler paragraff 2.18 o'r Canllawiau drafft.

[52] Paragraff 17 o'r Canllawiau presennol.

b) *“Dylai'r Cod wahaniaethu rhwng yr hawliau y mae’n rhaid eu sicrhau ar gyfer gwasanaethau darlledu teledu llinol (**e.e. darllediad cyntaf a ffrydio ar yr un pryd dros lwyfannau dosbarthu fel y Rhyngrwyd neu ddyfeisiau symudol ynghyd â nifer benodol o ailddarllediadau**) a hawliau y mae’n rhaid eu sicrhau e.e. ar gyfer manteisio y tu hwnt i'r llinol.”*[53]

c) *“Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rhag ceisio datblygu trefniadau ar gyfer defnyddio cynyrchiadau annibynnol a gomisiynir ar y sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu ar sianeli eraill sydd dan berchnogaeth lwyr **e.e. un darllediad ar y brif sianel yn cyfateb i 3 darllediad (dyweder) ar sianel eilaidd**, ar yr amod bod defnydd o’r fath yn cael ei nodi’n glir. Os felly, dylai’r Codau nodi’r dull a ddefnyddir ar gyfer trefniadau o’r fath **e.e. diffinio nifer y darllediadau yn erbyn sianeli penodol**.”*[54]

d) *“Dylai’r Codau nodi pa mor hir yw’r ffenestr gychwynnol a’r cyfnod dal yn ôl mewn perthynas â’r hawliau sydd wedi’u caffael. Nid oes rhaid i gyfnod y ffenestri hyn fod yr un peth ar gyfer pob genre neu gategori o hawliau, ond os yw hyd y ffenestri’n amrywio dylid nodi hyn yn glir e.e. **pan fo ffenestr gychwynnol ar gyfer manteisio ar hawliau fideo ar-alw wedi’i gyfyngu i gyfnod penodol o amser o amgylch y darllediad cyntaf.**”*[55]

3.51 Lle nad yw'r enghreifftiau hyn (yn y testun uchod) yn adlewyrchu arferion y diwydiant mwyach, rydym yn cynnig eu dileu.[56] Nid ydym yn credu bod hyn yn newid sylwedd ein Canllawiau nac ychwaith yn cael effaith negyddol ar eu heglurder.

### Diweddariadau eraill

3.52 Rydym hefyd yn cynnig dileu’r cyfeiriad at Delerau Masnach o’r Canllawiau.[57] Er ein bod yn cydnabod bod Telerau Masnach yn rhan o'r drefn arferol yn y berthynas rhwng cynhyrchwyr a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rôl y Canllawiau yw pennu fframwaith ar gyfer y Codau, yn hytrach na'r Telerau Masnach eu hunain.

3.53 Bellach, mae'r fframwaith cyfreithiol wedi'i nodi ar ddechrau'r Canllawiau drafft fel bod eu pwrpas a’u cwmpas yn gliriach.[58]

3.54 Rydym wedi symleiddio'r is-benawdau yn (a)-(g) y Canllawiau presennol, a oedd yn wreiddiol yn ddyfyniad uniongyrchol o’r ddeddfwriaeth, i wneud y ddogfen yn haws i’w darllen.

## Y camau nesaf

3.55 Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gan randdeiliaid am ein cynigion ac yn gobeithio cael ymgysylltiad pellach gyda phartïon â diddordeb cyn gwneud ein penderfyniadau.

3.56 I grynhoi, rydym yn cynnig newidiadau i’n Canllawiau fel rhan o’n gwaith o gyflwyno newidiadau yn sgil y Ddeddf Cyfryngau sy’n galluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddefnyddio eu chwaraewyr ar-alw er mwyn bodloni cwotâu ar gyfer cynyrchiadau

[53] Paragraff 19 o'r Canllawiau presennol.
[54] Paragraff 24 o'r Canllawiau presennol.
[55] Paragraff 37 o'r Canllawiau presennol.
[56] Yn ogystal â'r enghreifftiau a restrir ym mharagraff 3.50, gweler hefyd baragraff 25 y Canllawiau cyfredol (fel y'i diwygiwyd ym mharagraff 2.23 y Canllawiau drafft).
[57] Er enghraifft, ym mharagraff 10 a 25 y Canllawiau presennol.
[58] Gweler paragraffau 2.1-2.9 o'r Canllawiau drafft.

annibynnol. Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth yn ein Canllawiau i sicrhau bod cynhyrchwyr annibynnol yn ymwybodol o God y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cyn negodi contract comisiynu gyda'r darlledwr. Er mwyn gwneud diweddariadau mwy cyffredinol i'n Canllawiau fel eu bod yn adlewyrchu'r datblygiadau yn y farchnad, rydym wedi gwneud y cynigion canlynol:

1. diweddaru amcanion y Canllawiau i ystyried cylchoedd gwaith diwygiedig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Wrth wraidd hynny mae diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU;
2. egluro'r gwaharddiad ar ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus rhag cysylltu'r broses o gaffael yr hawliau sylfaenol â negodi hawliau eilaidd, fel y gellir ei hepgor gyda chydsyniad datganedig y cynhyrchydd annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig dileu'r gwaharddiad ar ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys gofyniad yn ei gontract comisiynu am hawliau cyfatebol;
3. bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cadw digon o wybodaeth am gomisiynau i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u Cod, yn hytrach nag anfon adroddiadau blynyddol atom am hyn; a
4. gwneud mân ddiweddariadau, gan gynnwys i'r iaith a ddefnyddir yn y Canllawiau.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Cwestiwn 1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein dull a'n Canllawiau drafft arfaethedig?

Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein hasesiadau effaith mewn perthynas â'n cynigion, fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2?

3.57 Mae gan bartïon tan 10 Mawrth 2025 i ymateb i'n hymgynghoriad. Ar ôl i'r ymatebion ddod i law ac ar ôl i ni eu hystyried, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad a'n Canllawiau terfynol erbyn yr haf 2025.

## Amserlen gweithredu

3.58 Ar ôl i ni gyhoeddi ein datganiad a'n Canllawiau terfynol yn ystod haf 2025, bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddiweddaru eu Codau i adlewyrchu ein Canllawiau terfynol. Bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio sêl bendith Ofcom i'r newidiadau sydd angen eu cyflwyno pan ddaw'r Canllawiau terfynol i rym, sef yn ôl pob tebyg 1 Ionawr 2026 pan ddaw darpariaethau newydd y Ddeddf Cyfryngau i rym a'r amrywiadau angenrheidiol i amodau trwyddedau.

3.59 Dyma amserlen ddangosol ar gyfer y cyfnod hyd at 1 Ionawr 2026:

a) 10 Mawrth: y dyddiad olaf ar gyfer ymateb i'n hymgynghoriad a'r Canllawiau drafft;
b) Ofcom yn dadansoddi'r ymatebion a'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid;
c) Haf: Ofcom yn cyhoeddi datganiad a'r Canllawiau terfynol;
d) Hydref: Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn paratoi'r Codau ar eu newydd wedd yn unol â'r Canllawiau terfynol - ceisio sêl bendith Ofcom;
e) Hydref: Ofcom yn cyhoeddi'r amrywiadau angenrheidiol i amodau'r drwydded i adlewyrchu'r Canllawiau terfynol; ac
f) Erbyn 1 Ionawr 2026: Canllawiau Terfynol yn dod i rym ac mae Codau newydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu lle.

# A1. Y fframwaith cyfreithiol

A1.1 Yn yr atodiad hwn, rydym yn crynhoi'r darpariaethau statudol sy'n berthnasol i'n cynigion yn yr Ymgynghoriad hwn.

A1.2 Yn gyntaf, rydym yn amlinellu dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o Ddeddf 2003 a'r dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i ni eu bodloni wrth gyflawni ein swyddogaethau. Yna, byddwn yn disgrifio'r fframwaith statudol sy'n berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n berthnasol i'n Canllawiau ac i Godau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Dyletswyddau cyffredinol Ofcom

A1.3 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom wrth gyflawni ei swyddogaethau wedi'u nodi yn adran 3 o Ddeddf 2003 ac mae'n cynnwys ei brif ddyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.

A1.4 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i ni wireddu amcanion penodol, gan gynnwys:

- bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac a fydd yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;
- cynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol; ac
- yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n darparu amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd rhag bod deunydd sarhaus a niweidiol yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o'r fath.

A1.5 Rhaid inni hefyd ystyried nifer o faterion, gan gynnwys:

- y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;
- y dymuniad i annog buddsoddi ac arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;
- y dymuniad i hyrwyddo cystadleuaeth yn y marchnadoedd perthnasol; ac
- Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.

A1.6 Yn ogystal â dyletswyddau cyffredinol Ofcom, mae'r dyletswyddau statudol canlynol yn berthnasol at ddibenion yr ymgynghoriad hwn.

## Dyletswydd twf economaidd

A1.7 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried y dymuniad i hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn

ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a
b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[59]

A1.8 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A1.9 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A1.10 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i'r dymuniad i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A1.11 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A1.12 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

## Y fframwaith statudol perthnasol o safbwynt darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

A1.13 Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nifer o rwymedigaethau rheoleiddio gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- eu cylch gwaith ar y cyd i sicrhau amrywiaeth eang o gynnwys clyweledol sy'n diwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl, gan ystyried sut a

[59] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

phryd mae pobl yn derbyn y rhaglenni, yn ogystal â natur y rhaglenni a'r pynciau dan sylw;[60]

- eu cwotâu rhaglenni,[61] gan gynnwys cwota i gynnwys cynyrchiadau annibynnol ar eu sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu eu chwaraewr ar-lein dynodedig (yn ôl y diffiniad mewn gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol), sy'n cynrychioli isafswm o leiaf.

A1.14 O dan eu fframweithiau rheoleiddio perthnasol, mae'n rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gael Cod, ac mae'n rhaid iddo nodi'r egwyddorion y bydd yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol.[62]

A1.15 Mae'n rhaid i'r Codau sicrhau, yn y modd a ddisgrifir yn y Canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom, y deilliannau canlynol:

a) bod amserlen resymol yn cael ei rhoi ar gyfer negodi cynhyrchiad annibynnol sy'n cael ei gomisiynu ac ar gyfer cytuno ar gytundeb rhwymol;
b) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o eglurder, pan gomisiynir cynhyrchiad annibynnol, ynghylch y gwahanol gategorïau o hawliau i ddarlledu, neu i ddefnyddio neu fanteisio ar y cynhyrchiad a gomisiynir, pan fyddant yn cael eu gwaredu;
c) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o dryloywder ynghylch y symiau sydd i'w talu mewn perthynas â phob categori o hawliau;
d) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod trefniadau boddhaol mewn grym ynghylch hyd a natur ecsgliwsif yr hawliau hynny;
e) bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer adolygu'r trefniadau a fabwysiadwyd yn unol â'r cod ac ar gyfer dangos cydymffurfiaeth ag ef;
f) mae'r gweithdrefnau hynny'n cynnwys gofynion ar gyfer monitro defnydd y cod ac ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Ofcom;
g) gwneir darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â darpariaethau'r cod (drwy gymrodeddu annibynnol neu fel arall) mewn ffordd sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol; a
h) bod unrhyw wybodaeth o'r fath am weithrediad y cod, fel y bo'n briodol ym marn Ofcom, yn cael ei rhoi i'r rheini sy'n creu cynyrchiadau annibynnol a gaiff eu comisiynu yn unol â'r cod.[63]

A1.16 Mae gofyn i ni gyhoeddi 'Canllawiau' i gynorthwyo darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i lunio eu Codau.[64] Diben y Canllawiau yw cynnig arweiniad cyffredinol ac ni ddylent nodi

---

[60] Adran 264(4) o Ddeddf 2003. Mae gofynion ychwanegol sy'n datgan bod yn rhaid i'r cynnwys y maent yn ei ddarparu, gyda'i gilydd, fodloni cwotâu rhaglenni yn unol ag adran 264(4) – (6) o Ddeddf 2003

[61] Ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, gweler adran 277 o Ddeddf 2003; ar gyfer S4C, gweler paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 12 i Ddeddf 2003; ar gyfer y BBC, gweler paragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 12 i Ddeddf 2003 a pharagraff 6, Atodlen 3 o'r Cytundeb Fframwaith. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiweddaru'r Cytundeb Fframwaith i adlewyrchu'r diwygiadau deddfwriaethol a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau.

[62] Gweler adran 285(2) o Ddeddf 2003 ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig; ar gyfer S4C, gweler paragraff 10(3)(c) o Atodlen 12 i Ddeddf 2003; ar gyfer y BBC, gweler paragraff 8(2) o Atodlen 3 i Gytundeb Fframwaith y BBC. Bydd diwygiadau a wneir gan y Ddeddf Cyfryngau i Atodlen 12 o Ddeddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol, maes o law, i'r BBC gydymffurfio â Chod ar sail statudol (gweler y diwygiadau a wnaed i baragraff 1(1)(a) o Atodlen 12, nad ydynt mewn grym eto). Fel uchod, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiweddaru'r Cytundeb Fframwaith i adlewyrchu'r diwygiadau deddfwriaethol a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau.

[63] Adran 285(3)(h) o Ddeddf 2003.

[64] Adran 285 o Ddeddf 2003.

telerau penodol i’w cynnwys yn y cytundebau comisiynu y mae’r Canllawiau’n berthnasol iddynt.

A1.17 Mae gofyn i ni ymgynghori â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y rheini sy'n creu cynyrchiadau annibynnol (neu bobl sy’n ymddangos i Ofcom eu bod yn eu cynrychioli), y BBC ac S4C ynghylch unrhyw ddiwygiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i’r canllawiau hyn.[65]

[65] Adran 285(6)(c) o Ddeddf 2003.

# A2. Asesiadau effaith

## Asesiad effaith

A2.1 Mae [Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/7>](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/7) yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.

A2.2 Disgwylir i ni ddiweddaru ein Canllawiau fel rhan o'n gwaith o weithredu'r Ddeddf Cyfryngau. Er nad yw'n ofyniad newydd i gynhyrchu Codau, bydd y newidiadau a ddaw yn sgil y Ddeddf Cyfryngau yn golygu bod y mathau o gomisiynu sy'n cael eu cwmpasu gan y Codau yn newid gydag egwyddor newydd i'r Codau ei chyflawni (gweler paragraffau 3.16 i 3.20 y ddogfen hon sy'n egluro ein newidiadau arfaethedig i weithredu'r Ddeddf Cyfryngau). Gan nad yw'r Canllawiau wedi cael eu diweddaru ers 2007, rydym hefyd wedi cynnig rhai diweddariadau i roi mwy o eglurder, i gyd-fynd yn well â diddordeb y gynulleidfa, ac i adlewyrchu cyd-destun y farchnad bresennol. Felly, rydym yn cynnig nifer o newidiadau i'r Canllawiau fel yr amlinellir yn Adran 3 y ddogfen hon.

A2.3 Rydym wedi ystyried effeithiau posibl ein newidiadau arfaethedig – yn benodol, ar gynulleidfaoedd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr. Mae ein safbwyntiau presennol ynghylch yr effaith gyffredinol debygol i'w gweld isod, yn ogystal â'n barn ynghylch effaith y newidiadau mwy sylweddol a phenodol a gynigir yn y ddogfen hon. Rydym wedi ystyried yr effeithiau hyn o'u cymharu ag opsiynau eraill (gwrthgyferbyniol) gan gynnig yn unig y set gulaf o newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i'n Canllawiau fod yn gyson â'r diwygiadau a wnaed i'r fframwaith cyfreithiol gan Ddeddf y Cyfryngau.

A2.4 Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl y bydd ein newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw amrywiadau mawr i'r arferion neu'r deilliannau presennol. Rydym o'r farn y bydd effaith gronnus y newidiadau arfaethedig yn gadarnhaol, yn gymesur, ac y bydd yn cyflawni ein hamcanion yn y ffordd leiaf ymwthiol. Mae'r effeithiau mwyaf uniongyrchol yn disgyn ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr, er ein bod yn nodi y gallai cynulleidfaoedd elwa'n anuniongyrchol o rai o'r manteisio perthnasol (e.e. mwy o hyblygrwydd mewn trafodaethau ar gyfer hawliau sylfaenol ac eilaidd gan wella argaeledd neu ansawdd y cynnwys). Rydym yn sylweddoli bod potensial mewn rhai amgylchiadau o'r newidiadau arfaethedig y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar eu hennill tra bo cynhyrchwyr ar eu colled. Yn seiliedig ar ein trafodaeth yn Adran 3 uchod, rydym wedi crynhoi isod ein barn am effeithiau tebygol newidiadau arfaethedig penodol.

A2.5 **Diwygio amcanion y Canllawiau:** Fel y nodwyd yn Adran 3, mae ein hamcanion diwygiedig yn canolbwyntio mwy ar gefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith diwygiedig er mwyn hyrwyddo buddiannau gwylwyr. Rydym yn disgwyl y bydd ein newidiadau arfaethedig i'r amcanion o fudd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, i gynhyrchwyr annibynnol ac i gynulleidfaoedd. Y rheswm am hyn yw bod cyflawni cylch gwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn golygu cefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol a sicrhau bod buddiannau gwylwyr yn cael eu diwallu.

A2.6 **Diweddariadau eraill i adlewyrchu'r amcanion diwygiedig:** Rydym wedi cynnig rhai newidiadau eraill i'r testun er mwyn cyd-fynd yn well â'r amcanion diwygiedig. Nid ydym yn disgwyl y bydd y newidiadau hyn yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ond credwn y bydd y sgil-effeithiau'n fuddiol wrth iddynt egluro pwysigrwydd pecynnau hawliau sy'n esblygu yn unol ag anghenion cynulleidfaoedd, gan gydbwyso buddiannau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd.

A2.7 **Diwygiadau sy'n ymwneud â thryloywder:** Fel y trafodwyd yn Adran 3 (gweler paragraff 3.18 y ddogfen hon a throednodyn 33), mae ein newid arfaethedig i sicrhau bod y Codau'n dryloyw, drwy fynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dolenni at ddogfennau perthnasol ar eu gwefan, yn debygol o fod o fudd i gynhyrchwyr gan y bydd yn haws cael gafael ar wybodaeth o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae unrhyw gynnydd yn y baich gweinyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn debygol o fod yn fach iawn ac rydym yn disgwyl i'r effaith net fod yn gadarnhaol. Nid ydym yn disgwyl i hyn gael unrhyw effaith andwyol ar gynulleidfaoedd.

A2.8 **Diweddariadau mewn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad:** Rydym wedi cynnig y newidiadau canlynol mewn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad:

a) rydym wedi cynnig caniatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio bwndelu hawliau sylfaenol ac eilaidd mewn trafodaethau negodi os yw'r cynhyrchydd yn cytuno'n benodol i hyn;

b) rydym wedi cynnig dileu'r ddarpariaeth na ddylid cynnwys unrhyw delerau mewn contractau sy'n eu gwneud yn amod (mewn gwirionedd neu i bob pwrpas) bod rhaid defnyddio braich ddosbarthu'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ei hun; ac

c) rydym wedi cynnig dileu'r gwaharddiad ar ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys gofyniad yn ei gontract comisiynu am hawliau cyfatebol.

A2.9 O ran (a) a (b), rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr yn eu trafodaethau. Byddant hefyd yn gwneud y trafodaethau negodi'n fwy effeithlon i'r ddwy ochr. Fel y nodwyd yn Adran 3, mae'n bosibl y bydd rhai cynhyrchwyr yn pryderu y gallai'r newid hwn wanhau eu gallu i gadw a manteisio ar hawliau eilaidd. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr, ill dau, yn debygol o elwa o'r newidiadau hyn, oherwydd byddai ganddynt fwy o hyblygrwydd i negodi cytundebau wedi'u bwndelu a'r potensial i leihau costau negodi i'r ddwy ochr. O safbwynt (c), rydym o'r farn y bydd hyn yn arwain at y fantais o sicrhau (neu ei gwneud hi'n haws sicrhau) bod cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n annibynnol yn cael presenoldeb cyson ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sydd felly'n gwasanaethu buddiannau gwylwyr yn well lle mae'r cynnwys hwnnw wedi dod yn gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

A2.10 **Trefniadau adrodd:** O ran ein newidiadau arfaethedig i drefniadau adrodd, rydym yn cynnig gofyn bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cadw'r wybodaeth angenrheidiol i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod, yn hytrach na gorfod creu a chyflwyno adroddiad blynyddol. Credwn y bydd hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o gymharu â'r gofyniad presennol i greu a chyflwyno adroddiadau blynyddol. Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynnig yn effeithio mewn unrhyw fodd ar gynhyrchwyr na chynulleidfaoedd.

A2.11 **Mân ddiweddariadau eraill:** Rydym wedi cynnig nifer o fân ddiweddariadau eraill i'r Canllawiau. Mae'r rhain yn cynnwys diweddaru terminoleg hen ffasiwn ac enghreifftiau dangosol nad ydynt yn cyd-fynd â chyd-destun presennol y farchnad, megis cyfeirio at

‘gyfryngau newydd’. Rydym hefyd wedi ceisio egluro beth mae rhai cysyniadau’n ei olygu drwy roi diffiniadau, megis ar gyfer ‘rhaglenni cysylltiedig’, ac wedi gwneud rhai mân welliannau strwythurol i’r Canllawiau. Rydym yn disgwyl i unrhyw effeithiau a ddaw yn sgil y cynigion hyn fod yn gadarnhaol, wrth wneud y Canllawiau'n haws eu deall i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill.

## Asesu’r effaith ar gydraddoldeb

A2.12 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy’n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[66]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i’r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.13 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[67]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o’r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A2.14 Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd y cynigion yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae’r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â’n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A2.15 Rydym o'r farn bod rhai o’r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau penodol - yn benodol grwpiau â gofynion o safbwynt mynediad. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cynnig bod gofyn i'r Cod a’r holl ddogfennau perthnasol fod ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch ar wefan y darparwr gwasanaeth cyhoeddus, ac y dylai'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ystyried anableddau ac anghenion hygyrchedd eraill. Rydym o'r farn bod ein cynigion eraill yn debygol o gael effaith niwtral yng nghyswllt pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill.

## Y Gymraeg

A2.16 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[68] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg o ran defnyddio’r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru.[69] Yn unol â hynny, rydym wedi ystyried effaith bosibl ein hadolygiad ar (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. I'r graddau y mae gennym ddisgresiwn wrth lunio ein cynigion ar gyfer

[66]Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[67]Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.
[68] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
[69] Mae safonau’r Gymraeg y mae’n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

y Canllawiau ar eu newydd wedd, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg lle bo hynny’n berthnasol. Yn benodol, o ran y gofyniad bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyhoeddi eu Codau, rydym wedi tynnu sylw at y ffaith y caiff trwyddedai Channel 3 yng Nghymru, C4C, Channel 5 ac S4C wneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. I’r perwyl hwn, rydym o’r farn y bydd ein cynigion yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 10 Mawrth 2025.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-revised-guidance-for-public-service-broadcasters-on-commissioning-codes-of-practice/. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part1a@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Polisi Cynnwys/Content Policy Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu

> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i'ch ymateb esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A3.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaact.part1a@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025.

A3.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A3.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth/Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgynghoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

> Dim ☐
> Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
> Ymateb cyfan ☐
> Sefydliad ☐
> Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)